Creu **cebab adar**

Na, na, nid cebab wedi'i gwneud o adar! Gwnewch cebab blasus o fwyd, ei hongian tu allan, a disgwyl i'r adar wahodd eu hunain am ginio.

Byddwch angen

- Gwifren flodau
- Llinyn
- Bwyd cebab ar gyfer adar, fel afalau, bara, caws caled a rhesins

1 Hel popeth sydd i'w rhoi yn y cebab. Dewiswch fwyd a fyddai'n dda i'r adar. Torrwch y darnau mawr o fwyd i mewn i ddarnau maint marblen.

2 Gwthiwch y wifren flodau drwy'r pytiau bach yn ofalus, gan adael rhyw 8cm ar y ddau ben. Plygwch y ddau ben fel dau fachyn bach.

3 Plygwch y wifren i ffurfio cylch, gan gloi'r ddau ben am ei gilydd.

4 Clymwch ddolen o linyn am y wifren gylch gan hongian y cebab er mwyn i'r adar ei fwyta.

yn rhoi cartref i fyd natur

Mae'r RSPB yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr, yn Yr Alban SC037654 040-1-0513-16-17
Lluniau gan David Tipling (rspb-images.com).